**Hawdd ei Ddeall**

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Sut rydym yn arolygu Gwasanaethau Gofal Plant a Chwarae

## Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n ddiogel



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Arolygiaeth Gofal Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r '**Cod Ymarfer ar gyfer Arolygu Gwarchod Plant, Gofal Dydd a Gwasanaethau Chwarae Mynediad Agored**'.

**Hydref 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Arolygiaeth Gofal Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:


**Gwefan:** www.arolygiaethgofal.cymru

**Ebost:** AGC@llyw.cymru

**Ffôn**: 0300 7900 126


Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthym beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247


Hawlfraint y Goron 2024, WG50904, ISBN digidol 978-1-83625-786-8

# Contents


**Pwy ydym ni .................... 4**

Beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud .................. 5

**Mathau o ofal plant rydym yn cadw golwg arnynt .................... 8**

**Hawliau plant .................... 9**

**Sut rydym yn arolygu gwasanaethau .................... 11**

Mae 4 cam i arolygiad .................... 13

**Beth rydym yn edrych arno .................... 15**

**Mathau o arolygiadau .................... 17**

**Pryd fyddwn ni yn gwneud ein harolygiadau .................... 19**

Beth ddylai arolygwyr a gwasanaethau ei wneud .................... 20

**Beth sy'n digwydd ar ôl arolwg .................... 23**

Beth rydym yn ei wneud os nad ydy gwasanaeth yn dda .... 26

**Sut rydym yn cadw gwybodaeth yn ddiogel .................... 27**

# Pwy ydym ni

Ni yw **Arolygiaeth Gofal Cymru**.



Rydym yn arolygu gwasanaethau gofal plant a chwarae. Rydym eisiau i bawb wybod sut rydym yn gwneud hynny.



Rydym yn **annibynnol**. Mae hyn yn golygu nad ydym yn cael ein rheoli gan y llywodraeth. Mae'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud wedi eu seilio ar beth rydym yn feddwl sydd orau.

## Beth rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud




Rydym yn gwirio bod plant sy’n defnyddio gwasanaethau yn ddiogel, yn iach ac yn hapus..

Rydym yn gwirio eu bod nhw’n gallu defnyddio’r hawliau yng  Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn.



Rydym yn dweud wrth y cyhoedd am wasanaethau. Rydym yn dweud pa mor dda yw pob gwasanaeth.



Rydym yn helpu gwasanaethau i wneud yn well.



Rydym yn rhoi cyngor i bobl sy’n gyfrifol am ofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal.



Rydym yn penderfynu pwy all redeg gwasanaeth, a pha wasanaeth y gallent ei redeg.





Rydym yn cymryd camau os nad yw gwasanaethau'n gwneud yr hyn mae'r gyfraith yn ei ddweud.



Rydym yn mynd yn ôl i wirio unrhyw wasanaethau roedden ni'n pryderu amdanynt.



Rydym yn gwirio pob gwasanaeth gofal plant a chwarae cofrestredig. Mae'r gyfraith yn dweud pwy sydd angen cael eu cofrestru.




Mae cofrestru yn golygu cytuno i ddilyn ein rheolau.



Rydym yn gwirio bod y plant yn dysgu, yn iach, yn hapus ac yn ddiogel.




Byddem yn caniatau i bobl redeg gwasanaethau gofal plant a chwarae ar ôl gwneud yn siwr y byddant yn dilyn y rheolau.



Rydym yn glir beth y byddwn yn ei wneud os nad yw gwasanaeth yn dilyn yr holl reolau.

# Mathau o ofal plant rydym yn cadw golwg arnynt

Rydym yn gwirio gwarchodwyr plant a gofal dydd. Mae hyn yn cynnwys:



- meithrinfeydd



- gofal sesiynol fel cylchoedd meithrin a grwpiau chwarae
- gofal plant y tu allan i’r ysgol fel gofal dydd yn y gwyliau neu cyn ac ar ôl ysgol



- crèches
- sesiynau chwarae.




Nid ydym yn gwirio nanis na grwpiau sy’n cyfarfod am lai na 2 awr.

# Hawliau plant




Rydym yn rhoi hawliau plant yn gyntaf yn ein gwaith.



Rydym yn gwirio bod plant:

- yn gallu dweud eu dweud
- yn ddiogel ac yn cael gofal da
- yn cael eu trin â pharch
- yn cael help i ddysgu sgiliau newydd



Byddwn yn gwneud rhywbeth os nad ydym yn credu bod plant yn ddiogel.



Byddwn ni hefyd yn dweud wrth yr awdurdod lleol.




Rydym yn gwirio bod y gwasanaeth yn dilyn y gyfraith.




Mae'r Gymraeg yn bwysig.




Rydym yn gwirio bod plant yn gallu cael gwasanaethau gofal plant a chwarae yn Gymraeg os ydynt eisiau, heb i'w rhieni orfod gofyn.




Rydym yn anfon arolygwyr Cymraeg eu hiaith at wasanaethau sy'n siarad Cymraeg.


# Sut rydym yn arolygu gwasanaethau



Pan fyddwn ni'n arolygu, byddwn yn:



- canolbwyntio ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, eu rhieni a staff



- helpu gwasanaethau i wella yn eu gwaith



- bod yn agored ac yn onest am bopeth yr ydym yn ei wneud a dweud



- bod yn deg pan fyddwn yn ysgrifennu ein hadroddiad



- cymryd camau os yw rhywbeth o'i le



- canolbwyntio ar iechyd, hapusrwydd a diogelwch plant



- trin bob gwasanaeth yr un fath.

## Mae 4 cam i arolygiad



**1. Rydym yn cael gwybodaeth am y gwasanaeth.**

Rydym yn edrych ar bryderon neu gwynion a phethau sy'n mynd yn dda.


**2. Rydym yn ymweld â'r gwasanaeth.**



Rydym yn gwrando ar blant, rhieni, gofalwyr a staff. Rydym yn gwylio beth sy'n mynd ymlaen. Os na all plant siarad â ni, rydym yn edrych ar sut maent yn cael eu cefnogi.




Rydym yn gwirio bod yr holl ardaloedd a ddefnyddir gan blant  yn ddiogel ac yn addas iddynt.



Rydym yn edrych ar waith papur.



Os ydym yn credu y gallai plant fod mewn perygl, rydym yn dweud wrth y gwasanaeth. Efallai bydd angen i ni ddweud wrth yr awdurdod lleol neu'r heddlu. Weithiau rydym yn dweud wrth y ddau.



**3. Rydym yn rhoi ein barn i'r gwasanaeth.**

Gallent ddweud wrthym os ydynt yn meddwl ein bod wedi gwneud camgymeriad.




**4. Rydym yn ysgrifennu adroddiad ac yn ei roi ar ein gwefan.**

Mae'n dweud wrth y gwasanaeth beth ma'n wneud yn dda, beth sydd angen iddynt ei newid neu ei wella.

Estyn

Nid ydym ni fel arfer yn dweud wrth wasanaethau pryd fyddwn yn dod, oni bai ein bod yn dod gydag Estyn.

# Beth rydym yn edrych arno

**Byddwn ni bob amser yn gwirio:**




- A yw'r plant yn iach, yn hapus ac yn dysgu?



- A yw'r gofal yn dda? A oes cyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd?




- A yw'r adeilad yn ddiogel, yn cael ei gadw'n dda ac yn groesawgar? A oes yna ddigon o bethau i'w gwneud?



- A yw'r gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda?




Os yw'r gwasanaeth yn darparu bwyd, rydym yn gwirio faint o sêr hylendid bwyd sydd ganddynt.



Rydym yn rhoi graddfeydd ar gyfer yr hyn a welsom yn ystod gwahanol rannau o'r arolygiad.

Gall y fod yn:



Ardderchog



Da



Digonol



Gwael



Os yw gwasanaeth yn cael 1 neu fwy gradd sy'n '**wael**'**,** rydym yn ni'n dweud wrthynt beth mae'n rhaid iddynt ei wneud.


# Mathau o arolygiadau




- Yn y rhan fwyaf o'n harolygiadau, rydym yn edrych ar bopeth yn y gwasanaeth. Rydym yn gwneud hyn tua 6 mis ar ôl i'r gwasanaeth ddechrau rhedeg ac yna'n rheolaidd bob ychydig flynyddoedd. Byddwn yn mynd yn ôl yn gynt os ydym yn credu nad ydy pethau'n ddigon da.



- Weithiau byddwn yn cynnal arolygiadau ychwanegol os oes angen i ni edrych ar bethau penodol rydym yn poeni amdanynt. Mae'r arolygiadau yma yn fyrrach na'n prif arolygiadau.



- Weithiau byddwn yn edrych ar draws Cymru ar 1 maes neu bwnc, fel gofal dydd i blant anabl. Mae hyn yn ein helpu i ddeall beth sy'n gweithio'n dda a dweud wrth Lywodraeth Cymru am unrhyw broblemau.

Estyn

- Estyn sy'n gyfrifol am edrych ar addysg. Os ydy gwasanaeth gofal plant yn cael arian i ddarparu addysg, rydym yn edrych ar hynny gydag Estyn.



Mae rhai arolygiadau yn cymryd mwy o amser nag eraill. Mae'n dibynnu ar bob gwasanaeth, fel faint o blant sy'n defnyddio'r gwasanaeth a beth yw eu hoed.



Byddwn fel arfer yn anfon un arolygydd, ond ar adegau efallai y byddwn yn anfon mwy.



Rydym ni hefyd yn cynnal cyfarfodydd rhwng arolygiadau gyda'r bobl sy'n rhedeg gwasanaethau gofal plant a chwarae. Yn y cyfarfodydd hyn rydym yn siarad am sut maent wedi gwneud pethau'n well ers yr arolygiad diwethaf a beth maent yn bwriadu ei wneud nesaf.

# Pryd fyddwn ni yn gwneud ein harolygiadau




Rydym yn edrych ar wasanaeth newydd tua 6 mis ar ôl iddo agor.




Yr amser hiraf i aros rhwng arolygiadau ydy 5 mlynedd.



Byddwn ni'n gwirio gwasanaeth yn gynt os:

- ydym wedi darganfod problemau yn yr arolygiad diwethaf
- bydd llawer o bobl yn cwyno amdano
- bydd rhywun yn dweud wrthym nad yw plant yn ddiogel




Efallai y byddwn hefyd yn gwirio os mai un person yn unig sy'n cwyno.

# Beth ddylai arolygwyr a gwasanaethau ei wneud



Rhaid i'n harolygwyr bob amser weithredu'n broffesiynol.




Mae'n rhaid iddynt ddilyn ein rheolau ar gyfer gwneud arolygiadau.



Mae'n rhaid iddynt bob amser roi'r plant sy'n defnyddio gwasanaethau yn gyntaf.



Gall darparwyr gwasanaeth a staff helpu drwy fod yn onest pan fyddwn ni'n siarad â nhw.



Mae angen iddynt ddweud wrthym os ydynt yn meddwl y gallem gynhyrfu unrhyw un.



Mae angen iddynt gario ymlaen â'u gwaith arferol pan fyddwn ni yno.



Mae angen iddynt adael i ni edrych o gwmpas, cyn belled â bod hyn yn ddiogel.



Mae'n rhaid iddynt ddod o hyd i fan preifat i ni gwrdd â phobl.



Mae'n rhaid iddynt ddweud eu dweud os oes ganddynt bryderon am sut rydym yn cynnal yr arolygiad.



Byddwn ni'n gwrtais gyda phob gwasanaethau gofal plant a chwarae. Rydym yn disgwyl iddyn nhw fod yn gwrtais gyda ni.



Byddwn ni'n cymryd camau os bydd staff yn gwneud i ni deimlo'n anniogel.

# Beth sy’n digwydd ar ôl arolwg




Byddwn ni’n dweud wrth y darparwr gwasanaeth beth yw ein barn. Byddwn ni fel arfer yn gwneud hyn cyn i ni adael.



Gallent ddweud wrthym os ydynt yn meddwl nad ydym wedi cael pethau’n iawn.




Byddwn yn dweud wrth y darparwr gwasanaeth os ydym yn meddwl bod angen cymryd camau yn ei erbyn.





Rydym yn ysgrifennu ein hadroddiadau mewn ffordd y gall y cyhoedd eu deall. Mae’r adroddiadau yn rhoi ffeithiau, nid ein barn ni yn unig.  Rydym yn gobeithio y byddant yn helpu rhieni a gofalwyr sydd angen dewis gwasanaeth.




Rydym yn anelu at anfon adroddiad ysgrifenedig at y gwasanaeth 5 wythnos ar ôl i ni eu harolygu.




Mae gan y gwasanaeth 2 wythnos i ddweud os ydynt yn meddwl ein bod wedi cael ffeithiau'n anghywir.




Os ydynt yn dweud hyn, mae gennym ni 1 wythnos i wneud newidiadau i'r adroddiad neu ddweud pam nad ydym am ei newid. Mae ganddynt wythnos arall i ddweud wrthym os ydynt yn fodlon efo'r adroddiad.




Os ydyn nhw, rydym yn rhoi'r adroddiad ar ein gwefan.




Os ydynt rydym yn rhoi’r adroddiad ar ein gwefan. Os nad ydynt, mae gennym 1 wythnos arall i roi ein barn.




Rydym yn anelu at roi’r adroddiad ar ein gwefan 10 wythnos ar ôl i ni arolygu’r gwasanaeth.



Mae gennym ni bolisi cwynion. Gall unrhyw un ei ddefnyddio i gwyno os nad ydyn nhw’n hapus am ein gwasanaeth neu am arolygydd.

## Beth rydym yn ei wneud os nad ydy gwasanaeth yn dda



Rydym yn eisiau i blant fod yn iach, yn hapus ac i ddysgu.



Dyma'r peth pwysicaf i wasanaethau ei gael yn iawn.



Byddwn yn gwneud yn siwr bod y gwasanaeth yn gwneud yr hynrydym wedi ei ddweud wrthynt am wneud.





Os ydym yn credu nad yw plant yn ddiogel, gallwn ni gau'r gwasanaeth.



Mae rhai gwasanaethau'n rhoi gofal gwael. Rydym yn gwneud yn siŵr eu bod yn gwella, neu rydym yn eu cau nhw. Gallwn ni hyd yn oed fynd â'r darparwr gwasanaeth i'r llys.

# Sut rydym yn cadw gwybodaeth yn ddiogel



Mae angen i ni gasglu llawer o wybodaeth. Mae peth ohoni yn bersonol neu’n breifat.




Mae cyfreithiau a rheolau am gadw gwybodaeth yn ddiogel.




Mae cyfreithiau a rheolau hefyd am y pethau y mae’n rhaid i ni eu cadw’n breifat a phethau y gallwn ni eu rhannu gyda phobl eraill.




Mae rheolau ar gyfer rhannu gwybodaeth â sefydliadau fel yr heddlu.




Byddwn ni bob amser yn dilyn y cyfreithiau a’r rheolau hynny.